

Darparu gwerslyfrau ac adnoddau dysgu i ddisgyblion

Gorffennaf 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Darparu gwerslyfrau ac adnoddau dysgu i ddisgyblion

Gorffennaf 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Lynne Neagle AC
Llafur Cymru
Torfaen

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Michelle Brown AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



Hefin David AC
Llafur Cymru
Caerffili



John Griffiths AC
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Darren Millar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



Julie Morgan AC
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Mark Reckless AC
Grŵp Ceidwadwyr Cymreig-
Dwyrain De Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cyflwyniad a chefnidir	7
Yr angen am ymchwiliad	7
2. Argaeledd adnoddau - a phwy sy'n gyfrifol	10
Pryderon eraill ynglŷn â darpariaeth adnoddau CBAC.....	14
3. Problemau'n parhau a'r cyswllt â diwygio'r cwricwlwm	16
4. Yr heriau wrth gynhyrchu adnoddau Cymraeg	19
Cymorth Llywodraeth Cymru tuag at adnoddau cyfrwng Cymraeg.....	22
5. Pynciau lle mae diffyg adnoddau addysgol	25
6. Effaith diffyg adnoddau	27
Gwyliwch y cyfweiliadau fideo gyda disgyblion ac athrawon:	27
7. Barn y Pwyllgor a'r argymhellion	32
Yr adnoddau sydd ar gael - a phwy sy'n gyfrifol.....	32
Darpariaeth ddwyieithog.....	33
Argaeledd gwerslyfrau ac adnoddau i athrawon	35
Dibyniaeth ar ddeunyddiau digidol	36
Effaith diwygio'r cwricwlwm	36
Atodiad - Cyfweiliadau Fideo: Briff	38

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi manylion i egluro pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ar gael i bob disgybl, waeth pa ddull dysgu y mae'n well ganddynt ei ddefnyddio..... Tudalen 33

Argymhelliad 2. Dylai Cymwysterau Cymru gyhoeddi rhestr o adnoddau craidd sydd eu hangen ar gyfer pob pwnc, ac sydd yn rhaid iddynt fod ar gael cyn dechrau'r cyrsiau perthnasol. Rhaid i'r adnoddau hyn gynnwys gwerslyfrau printiedig ac adnoddau printiedig i athrawon fel cam cyntaf, yn ogystal ag adnoddau ar-lein ac adnoddau eraill..... Tudalen 33

Argymhelliad 3. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet wneud cymhariaeth â rhannau eraill o'r DU i ganfod a oes problemau tebyg wrth ddarparu adnoddau addysgol, a ph'un a ganfu atebion y gellid eu defnyddio yng Nghymru..... Tudalen 33

Argymhelliad 4. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ganfod i ba raddau y mae athrawon yn cyfieithu adnoddau eu hunain, a beth yw'r adnoddau hynny. Yna dylid gwneud trefniadau i gyfieithu'r adnoddau hynny yn ganolog, a'u darparu i athrawon a disgyblion fel y bo'n briodol..... Tudalen 34

Argymhelliad 5. Dylid ymestyn swyddogaethau CBAC i gynnwys cyfrifoldeb dros gyfieithu a hyrwyddo adnoddau dysgu sy'n rhan o gronfa sylfaenol o adnoddau y dylent fod ar gael, neu'r rhai a ddefnyddir yn eang ar draws ysgolion. Tudalen 34

Argymhelliad 6. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet a CBAC sicrhau bod adnoddau dwyieithog yn cael eu datblygu'n naturiol wrth i'r adnodd gael ei greu, ac y dylai hyn fod yn rhan o unrhyw gontract a ddyfernir ar gyfer cynhyrchu adnoddau lle defnyddir cyhoeddwr masnachol..... Tudalen 34

Argymhelliad 7. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ailystyried y penderfyniad i ohirio cyhoeddi adnoddau Saesneg am hyd at wyth wythnos a sicrhau bod adnoddau yn Gymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Tudalen 35

Argymhelliad 8. Os yw'r treial yn mynd yn ei flaen, dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi manylion am sut y bydd llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, y treial yn cael ei asesu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar ddisgyblion os bydd y fersiwn Saesneg yn cael ei gohirio..... Tudalen 35

Argymhelliad 9. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau Cymraeg yn cael ei gysylltu â chyflwyno dwyieithog fel rhan o unrhyw gontract..... Tudalen 35

Argymhelliad 10. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ei gwneud yn ofynnol bod gwerslyfrau ac adnoddau i athrawon yn rhan o'r gronfa sylfaenol o adnoddau i ddysgwyr..... Tudalen 35

Argymhelliad 11. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi cynlluniau ar waith i sicrhau bod gwerslyfrau sy'n canolbwyntio ar gwricwlwm y dyfodol yn cael eu cynhyrchu a'u defnyddio fel y dull o addysgu, yn hytrach na'r model presennol o werslyfrau sy'n canolbwyntio ar gymwysterau..... Tudalen 36

Argymhelliad 12. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gomisiynu ymchwil i sefydlu faint o ddisgyblion y mae diffyg band eang yn effeithio arnynt, ac nad ydynt yn gallu cael mynediad at adnoddau addysgol digidol yn rhwydd..... Tudalen 36

Argymhelliad 13. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd a datblygu'r adnoddau cysylltiedig sydd eu hangen..... Tudalen 37

Argymhelliad 14. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod amser cyflwyno o 18-24 mis ar gael ar gyfer cynhyrchu unrhyw adnoddau newydd sy'n ofynnol o ganlyniad i'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm sydd ar y gweill..... Tudalen 37

Argymhelliad 15. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod unrhyw newidiadau mawr i'r polisi arholi yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fwy graddol yn y dyfodol. Yn arbennig, dylid osgoi newid y cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn yr un flwyddyn ar gyfer pynciau unigol..... Tudalen 37

1. Cyflwyniad a chefnidir

1. Mae darparu adnoddau priodol i'n dysgwyr, yn enwedig yn ystod addysg TGAU a Safon Uwch, yn angen sylfaenol. Dros y blynyddoedd diwethaf, tynnwyd sylw at y diffyg gwर्सlyfrau addas, yn enwedig gwर्सlyfrau cyfrwng Cymraeg, ac mae pobl ar draws y sector addysg wedi tynnu sylw at adnoddau addysgol eraill hefyd fel mater sy'n peri pryder. Yn bwysicach fyth, mae hwn yn bryder a godwyd gan y disgyblion eu hunain.

2. Ym mis Hydref 2015, dywedodd y BBC:

“Pupils studying maths GCSE in Welsh will be at a “huge disadvantage” because of delays translating textbooks, the body representing schools has said... The new English-language textbooks are already being used, but the Welsh translation is not available until May.”¹

3. Y flwyddyn ganlynol, Hydref 2016, dywedodd y BBC eto fod oedi yn y gwaith o gyfieithu gwर्सlyfrau cyhoeddedig, a bod y fersiynau Cymraeg ar gael lawer yn hwyrach na'r fersiynau Saesneg. Dadleuwyd bod hyn yn gorfodi athrawon i gyfieithu adnoddau eu hunain, gan gynyddu'u llwyth gwaith yn annheg a rhoi myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o dan anfantais.²

4. Mae argaeledd adnoddau ar gyfer pynciau penodol hefyd wedi'i godi fel mater sy'n peri pryder. Enwyd Addysg Grefyddol Safon Uwch fel y pwnc yr effeithiwyd fwyaf arno gan nad oedd gwर्सlyfrau, yn y Gymraeg na'r Saesneg, ar gael mewn pryd ar gyfer arholiadau eleni. Ym mis Chwefror 2018, dywedodd y BBC:

“Some A-level pupils in Wales are still waiting to receive textbooks which are yet to be printed - just three months before they sit their exams.”³

Yr angen am ymchwiliad

5. Ym mis Rhagfyr 2017, wrth graffu ar ei Adroddiad Blynyddol, gofynnodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (y Pwyllgor) i Gymwysterau Cymru pa werslyfrau oedd ar gael. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn codi cwestiynau

¹ Adroddiad y BBC, Hydref 2015

² Adroddiad y BBC, Hydref 2016

³ Adroddiad y BBC, Chwefror 2018

ynglŷn ag argaeledd deunyddiau, pa mor ddigonol yw'r adnoddau, a beth yr oedd hynny'n ei olygu'n ymarferol i ddisgyblion ac athrawon yng Nghymru.

6. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am y mater hwn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ac ysgrifennodd hefyd at CBAC a Chymwysterau Cymru, gan geisio gwybodaeth yn benodol ar:

- a oedd prinder llyfrau angenrheidiol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion yng Nghymru sy'n ymgymryd â TGAU a Safon Uwch;
- a oeddent yn credu y byddai unrhyw un o'r anawsterau a nodwyd yn effeithio ar ganlyniadau disgyblion; ac
- a oeddent yn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol, a sut.

7. Amlygodd yr ymatebion a ddaeth i law yr angen am graffu pellach ar y mater, a chytunodd y Pwyllgor i gynnal un sesiwn dystiolaeth ar ddarparu gwerslyfrau ac adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion, ynghyd â CBAC a Chymwysterau Cymru.

8. I helpu i lywio'r sesiwn dystiolaeth honno, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd y prif bryderon a godwyd yn ymwneud â:

- diffyg eglurder ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau dysgu digonol yn cael eu darparu;
- pynciau penodol lle mae'r adnoddau addysgol yn ddiffygiol;
- cynhyrchu adnoddau addysg addas yn brydlon;
- darpariaeth ddigonol yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- adnoddau eraill a ddarperir gan CBAC;
- heriau rhag darparu adnoddau addysgol digonol yn y dyfodol;
- effaith diffyg adnoddau ar ddisgyblion a staff.

9. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfweiliadau fideo hefyd gyda disgyblion ac athrawon ledled Cymru, i glywed yn uniongyrchol sut mae argaeledd adnoddau'n effeithio ar addysgu a dysgu. Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y cyfweiliadau i gasglu barn, a'r cwestiynau a ofynnwyd, i'w gweld yn yr Atodiad at yr Adroddiad hwn – ac mae hyn yn cynnwys trosolwg o'r ymatebion ysgrifenedig

gan y cyfranogwyr. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gymryd rhan a rhannu eu profiadau gyda ni.

2. Argaeledd adnoddau – a phwy sy'n gyfrifol

10. Yn y sesiwn dystiolaeth lafar a gynhaliwyd ar 20 Mai 2018, gofynnwyd i CBAC a Chymwysterau Cymru amlinellu eu rôl yn sicrhau bod gan fyfyrwyr ac athrawon yr adnoddau y mae eu hangen arnynt i ennill cymwysterau cyffredinol. Ochr yn ochr â hyn, holwyd yr sefydliadau am rôl cyhoeddwyр masnachol a Llywodraeth Cymru.

11. Amlinellodd Gareth Pierce, Prif Weithredwr CBAC, ei rôl fel:

- Darparu'r adnoddau sydd eu hangen mewn ystyr rheoleiddiol, gan gynnwys dwy elfen - y fanyleb, ac asesiadau enghreifftiol.
- Buddsoddi mewn adnoddau a gynhyrchir yn ddigidol yn y ddwy iaith ar yr un pryd, gyda phob cwrs newydd yn cynnwys arweiniad addysgu sylweddol, gyda gwybodaeth i athrawon a disgyblion.
- Annog cyhoeddwyр i ymddiddori mewn darparu gwर्सlyfrau, ond ni chaiff CBAC sefydlu cytundeb masnachol gyda chyhoeddwyр.

12. Eglurodd Gareth Pierce fod y cyhoeddwyр hynny sydd â diddordeb yn tueddu i fod yn seiliedig yn Lloegr, felly mae gan Lywodraeth Cymru rôl i ddarparu cyllid i CBAC i gefnogi'r broses o ddarparu fersiynau Cymraeg o werslyfrau.

13. Amlinellodd Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru, ei gyfrifoldebau fel:

- Rheoleiddio'r cyrff dyfarnu, ond nid rheoleiddio cyhoeddwyр masnachol na'r ddarpariaeth gwर्सlyfrau o fewn hynny.
- Wrth reoleiddio, mae'r corff yn canolbwyntio'n bennaf ar ddyluniad y cymwysterau ac, wedyn, ar gyflawni'r asesiad.
- Wrth fynd drwy'r dylunio, mae'r ffocws yn gadarn iawn ar sicrhau bod athrawon yn gallu cael dealltwriaeth dda o'r hyn sydd i'w ddisgwyl ganddyn nhw a chan eu disgyblion yn yr arholiadau.

14. O ran rôl cyrff eraill, cadarnhaodd Cymwysterau Cymru fod gan Lywodraeth Cymru rôl yn darparu arian grant ar gyfer cyfieithu deunyddiau i'r Gymraeg. Awgrymodd Mr Blaker mai un model sydd yna ar hyn o bryd, a hwnnw'n golygu dibynnu ar gyhoeddwyр masnachol i ddarparu gwर्सlyfrau. Aeth ymlaen i ddweud:

“Now, that’s something that probably needs to be looked at in the future in terms of potential different models for how that might be achieved and also, potentially, around a paradigm shift in what’s expected of those materials.”⁴

15. Yn ei llythyr at y Pwyllgor, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y canlynol:

“cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru yw penderfynu p’un a oes nifer digonol o adnoddau ar gael i gefnogi cyflwyno cymhwyster. Er hynny, nid oes rhaid i’r adnoddau hynny fod ar ffurf arbennig. Pan fo adnoddau asesu enghreifftiol, canllawiau athrawon ac adnoddau digidol ychwanegol ar gael, rwyf ar ddeall y gall Cymwysterau Cymru ddod i’r casgliad nad yw gwर्सlyfr yn hanfodol ar gyfer cymhwyster newydd.”⁵

16. O ran cyhoeddi gwर्सlyfrau yn benodol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg hefyd:

“the publishing of educational textbooks is market driven with commercial publishers deciding on which titles to commission. While the Welsh Government has no power over commercial decisions made by these companies, my officials continue to liaise with publishing houses to consider options for the future.”⁶

17. Nododd CBAC, yr NASUWT a Llywodraeth Cymru hefyd fod y strwythur neu’r nifer isel sy’n ymgymryd â rhai cymwysterau yn golygu bod cyhoeddwr masnachol o’r farn nad yw’n hyfyw cynhyrchu gwर्सlyfrau. Hefyd, o ran datblygu gwर्सlyfrau addysg grefyddol Safon Uwch, esboniodd CBAC fod dibyniaeth y cyhoeddwr ar nifer fach o awduron wedi llesteirio’r gwaith ymhellach.⁷

18. Codwyd cwestiwn penodol ynglŷn ag argaeledd gwर्सlyfrau gan Darren Millar AC, a amlinellodd fod CBAC a Chymwysterau Cymru wedi crybwyll bod angen rhyw fath o gronfa sylfaenol o adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr ac athrawon. Gofynnodd Darren Millar yn benodol onid yw gwर्सlyfr yn elfen eithaf

⁴ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 42]

⁵ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor, 13 Ebrill 2018

⁶ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor, 13 Ebrill 2018

⁷ Llythyr oddi wrth CBAC, 20 Ebrill 2018

sylfaenol o'r pecyn cymorth a fyddai gan unrhyw un i gefnogi plentyn i gael y wybodaeth y mae angen iddo ei dysgu, a'i hadolygu, cyn arholiadau?⁸

19. Mewn ymateb, dywedodd Gareth Pierce:

“Rwy'n meddwl mai'r dystiolaeth yw bod gwahanol bobl ifanc, gwahanol ddysgwyr, yn gweld eu hanghenion yn wahanol. Ac rwy'n cytuno bod gwerslyfr yn rhan o'r darlun a ddylai fod ar gael...mae'r cynnwys sydd mewn gwerslyfr yn mynd i fod yn bwysig—bod hynny ar gael mewn rhyw fodd neu ei gilydd.

Mae llawer iawn, wrth gwrs, o'n cynnwys digidol ni yn cyfateb i'r meysydd cynnwys o fewn gwerslyfr, dim ond ei fod mewn ffurf wahanol. Ond ie, yn gyffredinol, fe ddylai fod yna werslyfr.”⁹

“

Mae wedi dal fi nôl, oherwydd y ffordd draddodiadol o adolygu, sef edrych ar nodiadau dosbarth a neud nodiadau eich hunain, dio ddim wedi gweithio i bob un, a'r ffordd sy'n gweithio i fi yw mynd trwy gwerslyfrau ac edrych ar gwestiynau a hen gwestiynau.

Rhodri, Ysgol Penweddig

”

20. Yn dilyn hyn, tynnodd Darren Miller sylw at y ffaith na fyddai gan bob myfyriwr fynediad at adnoddau digidol gartref, a holodd a fyddai diffyg gwerslyfrau yn achosi anfantais sylweddol i'r dysgwyr hynny y mae angen iddynt efallai adolygu yn y dull traddodiadol drwy werslyfr.¹⁰

21. Dywedodd Mike Ebbsworth:

“Rŷm ni'n sicrhau bod yr adnoddau hynny sy'n ddigidol yn rhai sydd yn cynnwys pethau sydd hefyd yn bosib i athrawon eu hargraffu yn ogystal. Adnoddau i athrawon yw'r rhan fwyaf o'r rhain, er mwyn i'r athrawon wedyn eu haddasu yn eu ffyrdd eu hunain er mwyn siwtio'r dysgwyr sydd o'u blaen nhw ar y pryd. Ond, yn sicr, mae yna ddeunyddiau yna.

⁸ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 72]

⁹ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 73]

¹⁰ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 74]

Os oes rhyw weithgaredd, mae yna weithgaredd yna hefyd sydd yn bosib ei argraffu a rhoi i'r disgybl i fynd adref gyda nhw.”¹¹

22. Ychwanegodd Gareth Pierce:

“Rwy’n meddwl eich bod chi’n gywir; mae argaeledd technoleg yn rhan bwysig o’r darlun mawr yma, onid ydy? Roedd pobl ifanc yn sôn am wefannau a blogiau, ac rŷm ni’n sôn am adnoddau digidol, felly mae gallu cyrraedd yr adnoddau hynny, rwy’n credu, yn hanfodol yng Nghymru.”¹²

23. Pan ofynnwyd a oedd yn cytuno y dylai gwerslyfr fod yn ddarn sylfaenol hanfodol o’r pecyn adnoddau sydd ar gael ar gyfer pob cymhwyster, ymatebodd Philip Blaker:

“I think we wouldn’t want to underplay the desirability of textbooks, recognising that different learners have different learning styles and may look to different resources. I think what I’d like to raise is a wider concern about textbooks in their current model, which is very much around the fact that every time there’s a change in a specification, there’s a new textbook...”¹³

24. Amlinellodd Mr Blaker ddau bryder hefyd yn ymwneud â’r model presennol ar gyfer gwerslyfrau:

- *Y ffocws ar addysgu a dysgu.* Codwyd pryderon gan Ofsted ac Estyn ynghylch y ffocws ar addysgu i’r prawf. Mae Cymwysterau Cymru yn pryderu bod cael gwerslyfr a gymeradwyir gan y corff dyfarnu ac a ddylunnir yn benodol o gwmpas y fanyleb honno yn gallu annog y duedd honn.
- *Cynladwyedd y model.* Mae pryder, wrth i Gymru ymgymryd â rownd arall o ddiwygio cymwysterau, y gallai fod angen cyfres newydd o werslyfrau yn canolbwyntio ar fanyleb y cymwysterau newydd. Mae hyn yn achosi heriau posibl i’r cyhoeddwr ac yn costio i’r ysgolion sy’n cyflwyno’r cymwysterau. Byddai’n well gan Gymwysterau Cymru fod gwerslyfrau yn cael eu hystyried yn adnodd cwricwlaidd sy’n ehangach nag y mae’r model cyhoeddi presennol yn ei awgrymu, ac na fyddai angen eu newid a’u diweddarau pe bai’r fanyleb pwnc yn cael ei newid.

¹¹ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 75]

¹² Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 76]

¹³ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 78]



Dwi wedi troi nawr at ddefnyddio pethau fel blogs a gwefanau yn lle'r gwर्सlyfrau oherwydd mae lot yn haws oherwydd mae nhw yna'n barod i ni.

Meaan. Ysaol Gvfun Cwm Rhymni



Pryderon eraill ynglŷn â darpariaeth adnoddau CBAC

25. Dywedodd Estyn a'r Consortia Rhanbarthol fod problemau gyda darpariaeth deunyddiau cefnogi CBAC eraill y tu hwnt i werslyfrau. Amlygodd y Consortia Rhanbarthol:

“WJEC did not make as many Sample Assessment Materials available as schools would have liked early on in the reform process. At times the sample assessment materials were provided with incorrect mark schemes.”¹⁴

26. Nododd Estyn hefyd fod ysgolion yn dweud bod deunyddiau arholiad enghreifftiol Safon Uwch wedi cael eu darparu'n hwyr a bod athrawon TGAU wedi mynegi rhwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg eglurder gan CBAC ynghylch asesu.¹⁵ Rhannodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) bryderon ynghylch priodoldeb a defnyddioldeb cynlluniau marcio a deunyddiau enghreifftiol sydd ar gael i athrawon, yn enwedig mewn Mathemateg a Saesneg. Dywedodd:

“It would be helpful if the WJEC ensured that all necessary resources were made available before the start date of each qualification.”¹⁶

27. Fodd bynnag, cydnabu Estyn:

“The WJEC provides a very useful web-based service for teachers to create their own test papers. In many cases, it offers comprehensive mark schemes.”¹⁷

¹⁴ Ymatebion i'r Ymgynghoriad, Consortia Rhanbarthol

¹⁵ Ymatebion i'r Ymgynghoriad, Estyn

¹⁶ Ymatebion i'r Ymgynghoriad, Estyn

¹⁷ Ymatebion i'r Ymgynghoriad, Estyn

28. Dywedodd Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr wrth y Pwyllgor fod “yr adnoddau electronig yn y Gymraeg ar wefan CBAC hefyd wedi bod yn ddefnyddiol” wrth gefnogi ei disgyblion gyda gwaith cwrs.¹⁸

29. Eglurodd Cymwysterau Cymru:

“...we will be monitoring WJEC’s key meetings for A level Religious Studies to ensure that we are content that the grade boundaries set by WJEC are appropriate and that standards have been maintained.”¹⁹

¹⁸ Ymatebion i'r Ymgynghoriad, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

¹⁹ Llythyr oddi wrth Gymwysterau Cymru, 13 Mawrth 2018

3. Problemau'n parhau a'r cyswllt â diwygio'r cwricwlwm



Mae'r prinder gwerslyfrau ac adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg wedi bod yn broblem barhaol ar bob lefel o system addysg Cymru. Mae'r mater wedi cael ei godi gan athrawon, ysgolion, mudiadau ac undebau drosodd a throsodd dros y blynyddoedd"

Tystiolaeth ysgrifenedig UCAC



30. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ac yn y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor, mae'r problemau o ran diffyg adnoddau addas wedi cael eu codi dros nifer o flynyddoedd. Dywedodd Estyn, yr NAHT, UCAC, yr NASUWT, CBAC a Chymwysterau Cymru mai'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r broses o ddiwygio cymwysterau cyffredinol sydd wedi arwain at ddiffyg gwerslyfrau cefnogi.

31. Pan ofynnwyd iddo pam fod y mater hwn wedi cymryd cymaint o amser i'w ddatrys, dywedodd Gareth Pierce:

"Rydw i'n meddwl mai'r prif reswm yn y fan yna yw bod yna dair cyfres o ddiwygio cymwysterau wedi digwydd. Roedd yna rai ar gyfer eu dysgu yn 2015, pynciau eraill ar gyfer 2016, a phynciau eraill ar gyfer 2017. Mae'r tri chylch yna o ddiwygio i gyd wedi dioddef o'r amserlen fer oedd rhwng cymeradwyo cymhwyster a chyhoeddwr yn gallu dechrau ar y gwaith."²⁰

32. Nododd Cymwysterau Cymru fod yr amserlen ddiwygio a osodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn hynod o heriol i bawb:

"The provision of resources such as textbooks cannot be initiated until late in the process of developing and approving the new specification for a reformed qualification, when the specifications are in final or near final form. This has placed pressure on those providing these resources that must not be repeated in future reforms."

²⁰ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 88]

33. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd CBAC a Chymwysterau Cymru (neu'r cyrff a'u rhagflaenai) wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar y pryd am yr amserlenni. Meddai Gareth Pierce:

“Oedd, ac yn yr un modd yn Lloegr, byddai'r cyrff arholi sy'n gweithio yn Lloegr wedi rhoi'r un cyngor yn gwmws i'r Llywodraeth yn fan honno.

Felly, mae Cymru a Lloegr wedi rhedeg ar amserlen fer iawn, iawn, yn gyffredin i'r ddwy wlad, a buaswn i'n dweud bob pob corff arholi a phob cyhoeddwr wedi gweld hyn yn heriol iawn yng Nghymru ac yn Lloegr. Ond ein cyngor ni yw bod wir eisiau rhwng 18 mis a dwy flynedd rhwng cwblhau manyleb sydd wedi ei chymeradwyo, wedyn gallu gweithio gydag athrawon ar beth fydd eu hanghenion nhw...”²¹

34. O ran yr anawsterau posibl y mae'r tonnau diweddar o ddiwygiadau wedi'u hachosi, gofynnodd Llyr Gruffydd AC ynghylch y “tswnami” o ddiwygiadau addysg sy'n parhau yng Nghymru a pha mor hyderus y gallwn ni fod na fydd y sefyllfa yn dirywio wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno. Mewn ymateb, dywedodd Gareth Pierce:

“Mae hwnnw'n gwestiwn allweddol iawn, onid yw? Rydym ni wedi dechrau trafod hyn, yn benodol mewn fforwm sy'n cynnwys cyhoeddwr yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru rownd y bwrdd, a chyda Chymwysterau Cymru rownd y bwrdd hefyd.”²²

35. Ychwanegodd Philip Blaker:

“I think one of the big differences is it's a tsunami we can see coming.

I think, for us, once we've seen the curriculum, and we've got better sight of it, we'll be able to plan things out. We've already started engagement with awarding bodies over the possible supply chain for these new qualifications, and, ultimately, there'll be a go/no-go decision that would need to be made, probably in 2023...”²³

36. O ganlyniad i'w brofiadau gyda'r rownd ddiweddar o ddiwygio cymwysterau, galwodd Chymwysterau Cymru am gael o leiaf 12 mis rhwng cymeradwyo manyleb

²¹ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 93]

²² Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 96]

²³ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 99 a 100]

cymhwyster a'r addysgu cyntaf.²⁴ Nododd CBAC fod angen 18-24 mis i gynhyrchu adnoddau o ansawdd uchel.²⁵

37. Dywedodd Estyn hyn:

“any major change in examination policy [needs to be] introduced in a more staggered way in the future, avoiding both GCSEs and A Levels changing in the same year for individual subjects.”²⁶

38. Dywedodd Cymwysterau Cymru hefyd y bydd yn defnyddio ei ddull deilliannau cymharol i liniaru unrhyw effaith sy'n deillio o weithredu cymwysterau newydd (gyda neu heb werslyfrau ategol). Nododd hefyd y bydd yn gohirio dyddiad yr addysgu cyntaf ar fanylebau cymwysterau newydd i ganiatáu amser i adnoddau gael eu darparu, os oes angen, yn y dyfodol.²⁷

²⁴ Llythyr oddi wrth Gymwysterau Cymru, 13 Mawrth 2018

²⁵ Llythyr oddi wrth CBAC, 20 Ebrill 2018

²⁶ Ymatebion i'r Ymgynghoriad, Estyn

²⁷ Llythyr oddi wrth Gymwysterau Cymru, 13 Mawrth 2018

4. Yr heriau wrth gynhyrchu adnoddau Cymraeg

39. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ystod o randdeiliaid yn ymwneud â'r heriau o gynhyrchu adnoddau dysgu Cymraeg. Un o'r prif resymau a amlinellwyd oedd yr angen i ddibynnu ar gyhoeddwyr masnachol i gynhyrchu'r deunyddiau.

40. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi darparu arian i CBAC a oedd, yn rhannol, "er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu prosesau mewnol er mwyn gwella amserlenni cyhoeddi rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg o werslyfrau".²⁸ Nododd, o ganlyniad i'r camau gweithredu hyn, fod enghreifftiau o amserlenni yn cael eu cwtogi, yn cynnwys gwerslyfrau TGAU Daearyddiaeth yn cael eu cyhoeddi o fewn 4 mis i'r fersiwn Saesneg fod ar gael. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd fod Grŵp Rhanddeiliaid wedi'i sefydlu:

"i edrych yn fanwl ar y sefyllfa gan roi cyngor i mi ar sut y gallwn ddatblygu seilwaith newydd i gynhyrchu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm newydd a chymwysterau yng Nghymru."²⁹

41. Dywedodd CBAC ei fod wedi datblygu rhaglen ar gyfer seminarau trafod gyda thai argraffu i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â chynhyrchu adnoddau ar gyfer marchnad addysg Cymru ac mae wedi gwahodd tendrau am ymchwil i'r "defnydd presennol o adnoddau er mwyn gallu cynllunio'n bwrpasol i'r dyfodol".³⁰

42. Yn ei dystiolaeth lafar, awgrymodd CBAC hefyd y gallai fod ganddo ddiddordeb mewn gwneud mwy a chwarae rhan yn cynhyrchu deunyddiau pe câi'r rheoliadau eu newid. Pan ofynnwyd yn benodol a oedd hynny'n rhywbeth y byddent yn awyddus i'w weld yn digwydd, dywedodd CBAC:

"Byddem, ac rŷm ni wedi bod yn rhan o sbarduno'r drafodaeth ymhlith gweisg yng Nghymru. Mae yna yn sicr ddiddordeb...

Wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid eraill yn rhan o'r drafodaeth hefyd, nid dim ond CBAC, ond rŷm ni wedi bod yn rhan o sbarduno'r drafodaeth."³¹

²⁸ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor, 13 Ebrill 2018

²⁹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor, 13 Ebrill 2018

³⁰ Llythyr oddi wrth CBAC, 20 Ebrill 2018

³¹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 104]

43. Aeth Gareth Pierce ymlaen i ddweud bod hyn yn datblygu ar gyflymder priodol a bod gan nifer o gyhoeddwy'r a oedd yn gweithio fel grŵp dipyn o frwdfrydedd a gweledigaeth.

44. Pan ofynnwyd iddynt beth oeddent yn ei ystyried yn dderbyniol o ran amserlenni ar gyfer cyfieithu, dywedodd Mike Ebbsworth o CBAC eu bod wedi gwneud "lot o waith" i sicrhau bod yr oedi rhwng cael fersiwn Saesneg a fersiwn Gymraeg yn cael ei leihau, gan gadarnhau mai'r "senario gorau" yw bod y Gymraeg a'r Saesneg ar gael ar yr un pryd.³²

45. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor yn nodi rôl ei Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog.³³ Yn ei llythyr, nododd Ysgrifennydd y Cabinet y gwaith a oedd yn mynd rhagddo, a oedd yn cynnwys cynnig i atal cyhoeddi gwर्सlyfrau Saesneg am wyth wythnos i ganiatáu i'r fersiynau Cymraeg gael eu cynhyrchu.³⁴

46. Pan ofynnwyd iddo ymhellach am briodoldeb gohirio rhyddhau fersiynau Saesneg gwर्सlyfrau, dywedodd Gareth Pierce:

"Ond, jest i fod yn glir, mae'r syniad yma o oedi cyfrol Saesneg yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru'n frwd ein bod ni'n arbrofi gydag e, ond nid gyda chyfrolau sy'n hwyr ydy'r bwriad yna. Maen nhw o fewn y rhaglen newydd o werslyfrau sydd yn y grant yr oeddech chi'n sôn amdano o £500,000. Felly, mewn ffordd, arbrawf yw hwn ac mae Llywodraeth Cymru eisiau defnyddio hwn fel un ffordd o ymateb i'r gŵyn fod yna wahanol amseroedd."³⁵

47. Pan ofynnwyd a oedd yn credu y byddai oedi cyn cyhoeddi'r fersiwn Saesneg o bosibl yn golygu y byddai'r ddwy set o ddisgyblion (hy y rhai sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg) o dan yr un faint o anfantais, roedd Gareth Pierce yn anghytuno, gan ddweud:

"... mewn ffordd, mae'n defnyddio'r un egwyddor ag sydd gennym ni ar gyfer ein deunyddiau digidol. Gyda'n deunyddiau digidol, y bwriad yw bod pethau ar gael mewn pryd a'u bod nhw ar gael yn y ddwy iaith yr un pryd. Felly, ceisio efelychu hynny ond gyda thestun print, ond nid gyda testunau sydd eisoes yn hwyr. Felly, os ydy'r llyfrau yma'n cadw at

³² [Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion \[paragraff 114 a 115\]](#)

³³ Sefydlwyd y Grŵp yn dilyn uwchgynhadledd a gynhaliwyd yn 2017 i drafod atebion i'r oedi o ran cynhyrchu a brofwyd yn ystod y rownd olaf o ddiwygio cymwysterau.

³⁴ [Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor, 27 Ebrill 2018](#)

³⁵ [Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion \[paragraff 125\]](#)

eu hamserlenni, yna byddan nhw ar gael mewn pryd yn y ddwy iaith, ond bod y fersiwn Saesneg wedi aros cyn mynd mas ar y silffoedd.”³⁶

48. Mewn perthynas â'r dystiolaeth a gafwyd, yn cynnwys y dystiolaeth fideo, fod athrawon yn treulio llawer o'u hamser yn cyfieithu adnoddau eu hunain, dywedodd CBAC:

“Rydw i'n credu bod y cwestiwn o gyfieithu yn un diddorol iawn ... Rydw i'n meddwl efallai bod angen i ni ddeall beth sy'n achosi'r angen yna o gwbl oherwydd, fel yr oeddwn i'n sôn gynnau, mae yna gymaint o ddefnyddiau ar gael yn ddigidol yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Efallai cwestiwn diddorol yw: a ydy'r ffynhonnell yna yn ddefnyddiol i athrawon...

Ac, felly, rydw i'n meddwl efallai cwestiwn arall diddorol yw: a oes modd canfod beth ydy'r adnoddau ychwanegol yna sy'n werth eu cyfieithu? Ac, yn sicr, byddai fe'n anffodus iawn iawn pe bai yna ddwsin o ysgolion cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, yn cyfieithu deunydd o'r un wefan yn annibynnol o'i gilydd. Os oes yna ambell i wefan ac ambell i sefyllfa achos yn y byd mawr digidol tu fas sydd yn werth eu cyfieithu, oni ddylem allu canfod y rheini yn fuan? Achos nid ydw i'n credu ei fod yn ddefnydd da o amser athrawon.”³⁷

49. Pan ofynnwyd a allai darparu adnodd mor ganolog gael ei ystyried yn rhan greiddiol o'u gwaith, yn enwedig gan nad yw'n rhan o'r gofynion arnynt fel corff dyfarnu, dywedodd Gareth Pierce:

“Ie, fe allai fe fod, oherwydd rydym ni'n buddsoddi'n sylweddol iawn, iawn o gyllideb CBAC mewn adnoddau digidol. Felly, drwy sgysiau, fel yr oedd Mike yn ei ddweud, o ran canfod anghenion, penderfynu ar flaenoriaethau gydag athrawon mewn pynciau unigol, gall hynny roi gwybodaeth ddefnyddiol iawn i ni o ran beth i'w flaenoriaethu. Wrth gwrs, mae'r pecynnau digidol yr ydym yn eu creu eisoes yn seiliedig ar sgysiau gydag athrawon.”³⁸

³⁶ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 131]

³⁷ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 50]

³⁸ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 57]



Be mae'n neud yw, mae'n rhoi fwy o bwysau ar staff yn y sector Cymraeg, oherwydd mae nhw'n mynd ati i gynhyrchu pethau, i greu pethau eu hunain, fel nad ydyn nhw yn teimlo wedyn bod dysgwyr cyfrwng Cymraeg dan anfantais.

Meurig Jones, Prifathro, Ysgol Llangynwyd



50. Wrth drafod a allai fod angen adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn, dywedodd Mike Ebbsworth:

“Mae'n rhaid bod yn ofalus hefyd, wrth adnabod anghenion, fod yr anghenion hynny yn wir i'w anghenion nhw. Yn aml iawn, byddai gan athro—a minnau wedi bod yn athro fy hunan—y syniad yma bod angen pob peth. Ond, yn sicr, nid yw hynny'n wirioneddol wir. Yn aml iawn, mae'r ffocws ar bethau hollol wahanol. Mae yna symud tuag at asesu gwahanol iawn wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf yma nawr, ac felly rydym ni wedi symud ein adnoddau ni at y math yna o beth i ateb anghenion athrawon ar sut i fynd ati i gynnal y math yna o asesu.”³⁹

51. Ychwanegodd Philip Blaker:

“Teachers will want to be creative in the use of resources, and, in doing that, they'll potentially want to adapt resources from either language. I think one of the things that we would be quite keen to try and establish moving forward is what is the common core that should by default be available bilingually, and then what sits around that that would be for schools to use creatively and adapt.”⁴⁰

Cymorth Llywodraeth Cymru tuag at adnoddau cyfrwng Cymraeg

52. Ym mis Mawrth 2017, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddariad ar werslyfrau cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r cymwysterau diwygiedig. Dywedai'r diweddariad hwnnw:

³⁹ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 64]

⁴⁰ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 67]

“Cymerwyd camau cadarnhaol a chreadigol i wella’r sefyllfa, megis rhoi fersiynau drafft o’r gwerslyfrau ar wefan ddiogel CBAC cyn bo copïau am ddim o fersiynau printiedig ar gael i’w dosbarthu i ysgolion. Mae hyn yn sicrhau bod y cynnwys ar gael yn gynharach o lawer i athrawon a dysgwyr. Mae adnoddau digidol newydd hefyd yn cael eu datblygu ac adnoddau cyfredol yn cael eu diwygio i lenwi unrhyw fylchau. Mae’r rhain ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan CBAC.”⁴¹

53. Dilynwyd y diweddariad gan Uwchgynhadledd ar 26 Ebrill 2017 gyda’r nod o sicrhau bod gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg ar gael.⁴²

54. Ar 15 Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai’n darparu £500,000 ar gyfer adnoddau addysg Cymraeg yn 2018/19, fel rhan o gyllideb flynyddol i gomisiynu adnoddau Cymraeg.⁴³ Roedd y cyhoeddiad yn cadarnhau y byddai’r cyllid yn cefnogi 22 o brosiectau newydd i ddarparu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg newydd, a byddai’n help i fynd i’r afael â’r prinder adnoddau a oedd wedi’i nodi gan athrawon.

55. Nodai’r cyhoeddiad hefyd fod saith cyflenwr o bob rhan o Gymru wedi cael eu comisiynu i ddatblygu’r adnoddau newydd ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol a chymwysterau Cymru mewn:

- Celf a Dylunio;
- Cerddoriaeth;
- Cymraeg;
- Daearyddiaeth;
- Drama;
- Dylunio a Thechnoleg;
- Hanes;
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth;
- Mathemateg; ac
- Ieithoedd Tramor Modern.

⁴¹ [Diweddariad Ysgrifennydd y Cabinet ar werslyfrau cyfrwng Cymraeg, Mawrth 2017](#)

⁴² [Hysbysiad Llywodraeth Cymru ar yr Uwchgynhadledd i sicrhau bod gwerslyfrau Cymraeg ar gael](#)

⁴³ [Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, 15 Rhagfyr 2017](#)

56. Mewn llythyr at y Pwyllgor, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd:

“Mae Llywodraeth Cymru, o fewn y gyllideb flynyddol ar gyfer comisiynu adnoddau addysgol, yn dyrannu cyllid i CBAC i gynhyrchu fersiynau Cymraeg o werslyfrau sy’n cael eu cynhyrchu gan gyhoeddwr masnachol yn Lloegr, er mwyn cefnogi manylebau CBAC. Dyrannwyd hyd at £1.3 miliwn dros y blynyddoedd ariannol 2016-18. Mae CBAC hefyd yn rhedeg cynllun gwarantu prynu a gwerthu i’r cyhoeddwr fel rhan o’r trefniadau grant. Mae hyn yn sicrhau bod ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog yn cael copïau o’r adnoddau a gyhoeddir yn rhad ac am ddim.”⁴⁴

⁴⁴ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 31 Ionawr 2018

5. Pynciau lle mae diffyg adnoddau addysgol

57. Ym mis Chwefror 2018, dywedodd y BBC:

“Students began working towards their religious studies A-level exams in September 2017, but have been using copied notes and sheets prepared by their teachers while they wait for their textbooks to arrive.”⁴⁵

58. Ysgrifennodd Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr at y Pwyllgor ar y mater hwn, gan dynnu sylw at y canlynol:

“Cwrs safon uwch wedi cychwyn ym mis Medi 2017 gyda ffocws ar 3 thema - Athroniaeth, Moeseg a Bwdhaeth. Yr wythnos hon [Mawrth 2018] rydym wedi gallu prynu copi o lyfr Athroniaeth CBAC, trwy gyfrwng Saesneg ond nid yw'r llyfr Moeseg ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg tan ddiwedd mis Ebrill ac mae'r llyfr Bwdhaeth (copi Saesneg yn unig) 'out of stock'.”⁴⁶

59. Tynnodd y Consortia Rhanbarthol sylw at Ddaearyddiaeth TGAU fel pwnc lle mae diffyg deunyddiau cefnogi, yn ogystal ag Addysg Grefyddol Safon Uwch.⁴⁷



Mae'n bach o bryder i fi yn bersonol oherwydd hefo pwnc fel Astudiaeth Crefyddol da ni'n defnyddio lot o dyfyniadau o arbeniwgyr ac os mae nhw'n Saesneg, neu os ydi'r cyhoeddiad yn rhy hwyr i ni da ni methu defnyddio nhw, mae'n anodd i gofio nhw.

Ffion, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni



60. Dywedodd Estyn fod problemau o ran darparu deunyddiau cefnogi Safon Uwch mewn mathemateg, addysg grefyddol, hanes, Ffrangeg, Saesneg, cyfrifiadureg ac addysg gorfforol, ac adnoddau TGAU cyfrwng Cymraeg mewn addysg gorfforol, cerddoriaeth, datrys problemau mewn mathemateg-rhifedd, drama, Ffrangeg a Sbaeneg. Dywedodd hefyd:

⁴⁵ Adroddiad y BBC Chwefror 2018

⁴⁶ Ymatebion i'r Ymgynghoriad Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

⁴⁷ Ymatebion i'r Ymgynghoriad Consortia Rhanbarthol

“some pupils opted to undertake their work for the Welsh Baccalaureate in English rather than in Welsh, citing the lack of relevant Welsh-medium resources available via the internet as a reason for this choice... Some Welsh-medium or bilingual schools teach science through the medium of English. This is because text translated from English to Welsh is often more difficult for pupils to access.”⁴⁸

61. Serch hynny, yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT):

“Mathematics AS Unit 3 and 4, ICT for both GCSE and AS, Media Studies GCSE and Geography A Level, have no endorsed textbooks available yet.”⁴⁹

62. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Mewn achosion lle nad yw gwerslyfrau pynciau yn cael eu creu yn y naill iaith na’r llall, mae CBAC wedi cynhyrchu ystod o adnoddau digidol dwyieithog sydd eto’n rhad ac am ddim i ysgolion. Maent ar gael ar dudalennau adnoddau gwefan CBAC. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi dros £3.4m i’r consortia rhanbarthol yn 2016-17 a £2m yn 2017-18, er mwyn cefnogi ysgolion wrth iddynt baratoi i addysgu’r cymwysterau newydd. Roedd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau Cymraeg a Saesneg.”⁵⁰

⁴⁸ Ymatebion i'r Ymgynghoriad. Estyn

⁴⁹ Ymatebion i'r Ymgynghoriad. NAHT.

⁵⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 31 Ionawr 2018

6. Effaith diffyg adnoddau



The lateness of textbooks, sample materials and clear guidance around marking is likely to have impeded teachers' planning...They felt they were often left guessing as to how to mark pupils' work accurately and were therefore worried that they were not guiding the pupils appropriately.

These issues are very likely to have had an impact on pupils' achievement.

Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn



63. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfweiliadau â disgyblion ac athrawon, a chlywodd y gryn lawer o dystiolaeth yn ymwneud ag effaith diffyg adnoddau, a'r effaith a gaiff hynny. Un o'r pryderon allweddol a godwyd oedd bod disgyblion yn dioddef llawer o straen a phryder, a bod hyn yn cael effaith negyddol ar eu lles. Roedd hyn yn waeth fyth yn ystod cyfnodau arholiadau pan oedd disgyblion eisoes yn dioddef lefelau straen uwch.

Gwylwch y cyfweiliadau fideo gyda disgyblion ac athrawon:



64. Dywedwyd bod y diffyg adnoddau ohono'i hun yn ffynhonnell straen uniongyrchol i ddisgyblion, ynghyd â'r canfyddiad y gallai'r diffyg adnoddau hwn arwain at anfantais. Soniodd y disgyblion am yr anfantais bosibl hon o ddau safbwynt:

- lle'r oedd y disgyblion yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ond yna'n gorfod defnyddio adnoddau Saesneg i astudio;
- lle nad oedd adnoddau ar gael yn y naill iaith na'r llall a bod hyn yn rhoi disgyblion o dan anfantais wrth gystadlu yn erbyn disgyblion o'r tu allan i Cymru am leoedd prifysgol.

65. P'un a yw'r anfantais yn real ai peidio, roedd yn amlwg fod y canfyddiad o anfantais o'r fath yn ychwanegu at straen a phryder. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn derbyn bod y diffyg adnoddau ar gyfer cymwysterau cyffredinol wedi cael effaith negyddol ar rai disgyblion, dywedodd Gareth Pierce:

“Mae'n rhaid i fi gytuno. Mae yna dystiolaeth o'u pryder nhw, onid oes? Ond fel roedd Philip yn dweud, beth sydd gennym ni ddim yw tystiolaeth bod y pryder yna wedyn yn trosglwyddo i effaith ar eu cyflawniad nhw, oherwydd mae yna gymaint o ffactorau, mae yna gymaint o wahanol fathau o adnoddau maen nhw'n cyfeirio atyn nhw— hyd yn oed y rhai sy'n dymuno gweld gwर्सlyfr, maen nhw hefyd yn sôn am gymaint o bethau eraill sydd ganddyn nhw.”⁵¹

66. Dadleuai Cymwysterau Cymru mai dim ond un o nifer o ffactorau sy'n gallu effeithio ar berfformiad dysgwr mewn arholiad yw argaeledd ac ansawdd adnoddau addysgu a dysgu, ac o ganlyniad nad yw'n bosibl mesur effaith unrhyw ddiffyg adnoddau ar ganlyniadau arholiadau.



Mae'n anodd iawn, oherwydd y brifysgol rwy'n mynd iddi, mae llawer o gystadleuaeth gan bobl eraill mewn pynciau eraill sydd â'u gwर्सlyfrau...a bydd yn llawer mwy anodd imi gystadlu â hwy.

Georgina, St. Albans RC High School



67. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd yr NAHT:

⁵¹ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff.151]

“Staff are reporting that they are less confident that they are covering the full content with the required depth, knowledge and understanding needed to fully support their students, due to issues related to support materials and resources.”⁵²

68. Aeth yr NAHT ymlaen i ddadlau y bydd hyn yn cael effaith negyddol uniongyrchol ar ganlyniadau disgyblion.⁵³

69. Dywedodd y Consortia Rhanbarthol y byddent yn pryderu pe bai diffyg gwerslyfrau'n effeithio ar ddeilliannau disgyblion. Roeddent yn cydnabod y gellid effeithio ar ddeilliannau disgyblion lle mae gofyn i athrawon greu adnoddau o'r dechrau'n deg, o ystyried yr amser y mae hynny'n ei gymryd – amser y gellid ei dreulio'n fwy cynhyrchiol gyda'r disgyblion.

70. Roedd yr NASUWT yn rhannu pryderon y Consortia Rhanbarthol, gan dynnu sylw at:

“the increased workload placed on teachers and the lack of assistance available regarding clerical and administrative tasks, especially photocopying, in the absence of textbooks.”⁵⁴

71. Rhoddodd UCAC rybudd hefyd y gallai pwysau ychwanegol a mwy o lwyth gwaith ar staff effeithio ar recriwtio a chadw athrawon cyfrwng Cymraeg.⁵⁵

72. Roedd Estyn yn cydnabod y gallai athrawon sy'n cynhyrchu eu hadnoddau eu hunain helpu i liniaru effaith diffyg adnoddau priodol, ond rhybuddiodd nad oedd yr adnoddau a gynhyrchwyd wedi'u golygu'n fanwl a'u bod yn amrywiol iawn eu hansawdd.⁵⁶ Dywedodd Estyn hyn hefyd, yn enwedig o ran cyrsiau Safon Uwch:

“lateness of textbooks, sample materials and clear guidance around marking is likely to have impeded teachers' planning...These issues are very likely to have had an impact on pupils' achievement ...findings from visits to schools and FE colleges indicate that leaders in all schools and colleges visited expressed disappointment and frustration about the

⁵² Ymateb i'r ymgynghoriad, yr NAHT

⁵³ Ymateb i'r ymgynghoriad, yr NAHT

⁵⁴ Ymateb i'r ymgynghoriad, yr NASUWT

⁵⁵ Ymateb i'r ymgynghoriad, UCAC

⁵⁶ Ymateb i'r Ymgynghoriad, Estyn

quality and timely availability of English-medium and Welsh-medium textbooks and other resources such as specimen papers.”⁵⁷

73. Wrth sôn am y gostyngiad mewn cyrhaeddiad a awgrymwyd gan Estyn, tynnodd Philip Blaker sylw at y cyswllt â diwygio’r cwricwlwm, gan ddweud:

“Reforms always throw up issues like this. It’s almost an inevitability of any change that there will be impact. I think what we need to do is we need to think about the future reforms, particularly knowing that we’ve got some on the radar already, and to think about what this paradigm is and how we can isolate some of these factors in the future. So, if we look at resources and if we look particularly at textbooks as being a curriculum resource, rather than a qualification resource, I think we can change the timeline to which some of those materials are produced.

...I would really like to a shift in the paradigm for resources particularly, away from the focus on the qualification and into more of a focus on the curriculum—then that provides an opportunity for, I would suggest, a much healthier model in the future.”⁵⁸

74. O ran y gystadleuaeth â disgyblion sy’n astudio yn Lloegr, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai’r oedi cyn cyhoeddi gwerslyfrau yn rhoi myfyriwr cyfrwng Saesneg sy’n defnyddio’r fersiwn Saesneg o dan anfantais bosibl, o’i gymharu â myfyrwr yn Lloegr. Ymatebodd Gareth Pierce gan esbonio:

“...mae’r ymgeiswyr ar gyfer cymhwyster yng Nghymru yn cael eu hasesu fel carfan genedlaethol, mewn gwirionedd, ac felly, mae pob darn o wybodaeth sydd gyda ni ynglŷn â safonau yn cael ei gloriannu ar gyfer y grŵp cenedlaethol cyfan. Mae tarddiad y safonau yn mynd nôl i’r gyfundrefn tair gwlad. Felly, trwy drafodaeth gyda Chymwysterau Cymru, rydym ni’n sicrhau nad oes yna unrhyw anfantais i unrhyw garfan yng Nghymru mewn unrhyw bwnc, boed hynny oherwydd nad oedd gwerslyfr ar gael neu boed hynny am unrhyw reswm arall.”⁵⁹

75. Aeth Philip Blaker ymlaen i ychwanegu:

“Certainly, from a comparable outcomes perspective, the fewer differences that there are that are differential—. So, the idea of textbooks being available in English and Welsh at different times could

⁵⁷ Ymateb i’r Ymgynghoriad, Estyn

⁵⁸ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 162-164]

⁵⁹ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 136]

potentially create another dimension in terms of disparity. So, if we're looking at it strictly speaking from a comparable outcomes perspective, it makes the awarding easier if everybody's on a common playing field."⁶⁰

⁶⁰ Tystiolaeth Iafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 137]

7. Barn y Pwyllgor a'r argymhellion

76. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd bod pryderon gan ddisgyblion, athrawon ac ystod eang o randdeiliaid ynghylch argaeledd gwerslyfrau ac adnoddau dysgu eraill. Codwyd pryderon ynghylch adnoddau yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mewn perthynas â chopïau caled a deunydd digidol. Mae'r effaith bosibl y gallai diffyg adnoddau ei chael ar gyrhaeddiad disgyblion hefyd yn bryder gwirioneddol i'r Pwyllgor.

77. Roedd y dystiolaeth uniongyrchol a gawsom gan ddisgyblion ac athrawon yn peri bryder arbennig. Mae'n amlwg fod y diffyg adnoddau yn cael effaith wirioneddol ar ddisgyblion, ac mae'n ychwanegu at eu straen a'u pryder. Mae hyn yn destun gofid arbennig o gofio'r pwysau cynyddol sydd eisoes ar ddisgyblion sy'n mynd drwy arholiadau.

Yr adnoddau sydd ar gael – a phwy sy'n gyfrifol

78. Roedd hefyd yn glir iawn o'r dystiolaeth a gafwyd bod disgyblion yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, ac mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf fod rhaid i adnoddau fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau i alluogi disgyblion i ddysgu gan ddefnyddio'r dull sy'n gweddu orau iddyn nhw - boed hynny drwy ddefnyddio gwerslyfr neu drwy adnoddau digidol, yn Saesneg neu yn y Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn deall bod yr arian sydd ar gael i gwrdd â chost adnoddau yn gyfyngedig, ac mae'n credu felly bod yn rhaid ailfeddwl yn sylfaenol am yr adnoddau a ddylai fod ar gael i sicrhau dysgu effeithiol gan ein holl ddisgyblion.

79. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr adnoddau ar gael i bob disgybl, waeth pa ddull dysgu y mae'n well ganddynt ei ddefnyddio. Gallai'r diffyg eglurder hwn arwain at fethiant i ddarparu adnoddau digonol a chael effaith andwyol ar ddysg disgyblion. Rhaid hefyd cael dealltwriaeth glir ynghylch pa adnoddau craidd y disgwylir eu bod ar gael ar gyfer pob pwnc cyn dechrau cwrs. Dylai hyn gynnwys gwerslyfrau ac adnoddau athrawon, yn ogystal ag adnoddau ar-lein.

80. Er mwyn helpu i sicrhau bod modd rhoi ystyriaeth iawn i'r problemau a nodwyd ynglŷn â darparu adnoddau, a'u cywiro, mae'n hanfodol fod pawb sydd â diddordeb yn rhan o'r broses.

81. Er mwyn helpu i lywio unrhyw drafodaethau wrth symud ymlaen, cred y Pwyllgor hefyd y byddai'n ddefnyddiol canfod a oes problemau tebyg yno o ran darparu adnoddau yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac, os felly, i ba lefel.

Argymhelliad 1. Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi manylion i egluro pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ar gael i bob disgybl, waeth pa ddull dysgu y mae'n well ganddynt ei ddefnyddio.

Argymhelliad 2. Dylai Cymwysterau Cymru gyhoeddi rhestr o adnoddau craidd sydd eu hangen ar gyfer pob pwnc, ac sydd yn rhaid iddynt fod ar gael cyn dechrau'r cyrsiau perthnasol. Rhaid i'r adnoddau hyn gynnwys gwerslyfrau printiedig ac adnoddau printiedig i athrawon fel cam cyntaf, yn ogystal ag adnoddau ar-lein ac adnoddau eraill.

Argymhelliad 3. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet wneud cymhariaeth â rhannau eraill o'r DU i ganfod a oes problemau tebyg wrth ddarparu adnoddau addysgol, a ph'un a ganfu atebion y gellid eu defnyddio yng Nghymru.

Darpariaeth ddwyieithog

82. Roedd y Pwyllgor yn pryderu'n fawr o glywed bod athrawon yn cyfieithu adnoddau eu hunain er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hynny ar gael i ddisgyblion. Credwn fod yr athro / athrawes felly yn treulio amser yn gwneud tasgau na ddylai fod rhaid eu gwneud, a gallai amharu ar allu athrawon i gynllunio'u gwaith ac addysgu'n ddigonol. Awgrymwyd hefyd gan Estyn, lle nad yw athrawon yn gallu cynllunio'n ddigonol, fod hyn yn gallu cael effaith negyddol ar gyrhaeddiad - er bod y Pwyllgor yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth uniongyrchol i gadarnhau hyn.

83. Ffactor arall a amlygwyd yw bod athrawon sy'n cyfieithu deunyddiau eu hunain yn aml yn gwneud hynny heb gysylltiad ag athrawon neu ysgolion eraill. Er nad yw'r Pwyllgor wedi gwneud unrhyw waith i sefydlu pa mor gyffredin yw hyn, mae'n rhaid ei fod yn golygu dyblygu ymdrechion, lle mae nifer o athrawon yn cyfieithu'r un deunyddiau. Mae'r Pwyllgor yn credu hefyd y gallai hyn arwain at anghysondeb mewn cyfieithu, gan effeithio ar ansawdd yr adnoddau sydd ar gael i ddisgyblion.

84. Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad yw'n bosibl efallai nac yn ymarferol i bob un o'r adnoddau dysgu fod ar gael yn ddwyieithog, rhaid cael cronfa sylfaenol o adnoddau a ddylai o'i hanfod fod ar gael yn ddwyieithog. Yn ogystal, dylai'r adnoddau eraill a ddefnyddir yn fwyaf eang ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg hefyd fod ar gael yn ddwyieithog.

85. Felly, mae'r Pwyllgor o'r farn fod ei bod yn hanfodol canfod i ba raddau y mae athrawon yn cyfieithu adnoddau eu hunain, a beth yw'r adnoddau hynny. Dylai unrhyw adnoddau yr ystyrir eu bod yn rhan o gronfa sylfaenol o adnoddau, fel yr

amlinellwyd yn argymhelliad 2, gael eu cyfieithu yn ganolog a dylent fod ar gael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar ddechrau cwrs.

86. Pan ganfyddir bod adnoddau eraill yn cael eu defnyddio'n eang ar draws ysgolion ac yn cael eu cyfieithu gan athrawon, dylid sefydlu trefniadau i gyfieithu'r adnoddau hynny yn ganolog, a'u darparu ar gyfer athrawon a disgyblion fel y bo'n briodol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid symud ymlaen â hyn fel swyddogaeth neu gyfrifoldeb sy'n disgyn ar CBAC.

Argymhelliad 4. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ganfod i ba raddau y mae athrawon yn cyfieithu adnoddau eu hunain, a beth yw'r adnoddau hynny. Yna dylid gwneud trefniadau i gyfieithu'r adnoddau hynny yn ganolog, a'u darparu i athrawon a disgyblion fel y bo'n briodol.

Argymhelliad 5. Dylid ymestyn swyddogaethau CBAC i gynnwys cyfrifoldeb dros gyfieithu a hyrwyddo adnoddau dysgu sy'n rhan o gronfa sylfaenol o adnoddau y dylent fod ar gael, neu'r rhai a ddefnyddir yn eang ar draws ysgolion.

87. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau y mae marchnad fasnachol yn eu creu yng nghyd-destun y Gymraeg, ond yn credu y dylid datblygu adnoddau dwyieithog yn naturiol wrth i adnoddau gael eu creu. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr adnoddau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai hyn fod yn rhan o unrhyw gontract a ddyfernir ar gyfer cynhyrchu adnoddau lle defnyddir cyhoeddwr masnachol.

Argymhelliad 6. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet a CBAC sicrhau bod adnoddau dwyieithog yn cael eu datblygu'n naturiol wrth i'r adnodd gael ei greu, ac y dylai hyn fod yn rhan o unrhyw gontract a ddyfernir ar gyfer cynhyrchu adnoddau lle defnyddir cyhoeddwr masnachol.

88. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i wella'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi cymwysterau yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac i sicrhau eu bod yn cael eu cynhyrchu ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet y bydd fersiwn Saesneg adnoddau sydd ar fin ymddangos/newydd yn cael ei hatal am wyth wythnos er mwyn i'r fersiwn Gymraeg gael ei chynhyrchu, gyda'r ddwy iaith yn cael eu cyhoeddi yr un pryd. Mae'r Pwyllgor yn eithriadol o bryderus am sail y penderfyniad hwn, gan gredu y gallai achosi anfantais i'r rhai sy'n dysgu yn Saesneg os bydd oedi wrth gyhoeddi. Felly, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ailystyried y penderfyniad hwn.

89. Mae'r Pwyllgor yn deall y bydd y drefn hon yn cael ei threialu gyda dau gyhoeddiad sydd ar fin ymddangos, ac nad yw'n cael ei rhoi ar waith ar gyfer pob

cyhoeddiad ar hyn o bryd. Os bydd y treial yn mynd yn ei flaen, mae'r Pwyllgor yn credu bod rhaid darparu rhagor o fanylion am y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad cyn i'r treial gael ei gynnal, yn cynnwys sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn asesu llwyddiant - neu ddiffyg llwyddiant - yn ogystal â'r effaith bosibl ar ddisgyblion os bydd y fersiwn Saesneg yn cael ei ohirio.

Argymhelliad 7. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ailystyried y penderfyniad i ohirio cyhoeddi adnoddau Saesneg am hyd at wyth wythnos a sicrhau bod adnoddau yn Gymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Argymhelliad 8. Os yw'r treial yn mynd yn ei flaen, dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi manylion am sut y bydd llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, y treial yn cael ei asesu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar ddisgyblion os bydd y fersiwn Saesneg yn cael ei gohirio.

90. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer cynhyrchu adnoddau Cymraeg. Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod hyn yn cael effaith gadarnhaol, ond y gellid gwneud mwy. Er mwyn helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai cyllid Llywodraeth Cymru gael ei gysylltu â chyflwyno dwyieithog fel rhan o unrhyw gontract.

Argymhelliad 9. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau Cymraeg yn cael ei gysylltu â chyflwyno dwyieithog fel rhan o unrhyw gontract.

Argaeledd gwerslyfrau ac adnoddau i athrawon

91. Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n gryf â rhanddeiliaid bod gwerslyfrau ac adnoddau i athrawon yn rhan o'r gronfa sylfaenol o adnoddau a ddylai fod ar gael i ddysgwyr. Mae'n amlwg fod disgyblion yn defnyddio ystod o ddulliau i ddysgu, ac ni ddylai'r rhai sy'n defnyddio gwerslyfrau fod o dan anfantais am nad oes gwerslyfrau ar gael. Felly, mae'r Pwyllgor yn bryderus nad yw'n ofynnol fod gwerslyfrau ar gael i bawb, ac mae'n credu y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gymryd camau i unioni hyn.

Argymhelliad 10. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ei gwneud yn ofynnol bod gwerslyfrau ac adnoddau i athrawon yn rhan o'r gronfa sylfaenol o adnoddau i ddysgwyr.

92. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn a fynegwyd ei bod yn hollbwysig bod disgyblion yn dysgu'r cwricwlwm yn hytrach na phasio arholiadau. Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r awgrym gan Gymwysterau Cymru ynghylch cynhyrchu gwerslyfrau sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm, yn hytrach na gwerslyfrau sy'n

canolbwyntio ar gymwysterau. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai hyn yn help i wneud cynhyrchu gwerslyfrau yn fwy cynaliadwy, gan fod y cwricwlwm yn llai tebygol o newid dros amser na manylebau'r cymwysterau.

Argymhelliad 11. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi cynlluniau ar waith i sicrhau bod gwerslyfrau sy'n canolbwyntio ar gwricwlwm y dyfodol yn cael eu cynhyrchu a'u defnyddio fel y dull o addysgu, yn hytrach na'r model presennol o werslyfrau sy'n canolbwyntio ar gymwysterau.

Dibyniaeth ar ddeunyddiau digidol

93. Fel yr amlinellwyd eisoes, mae'n amlwg fod gwahanol ddisgyblion yn mynd ati i ddysgu mewn gwahanol ffyrdd. I rai, gall defnyddio deunyddiau digidol fod yn ddull effeithiol. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor wedi nodi bod deunyddiau digidol yn cael eu ddefnyddio'n eang gan ysgolion. Mae'n amlwg fod CBAC yn darparu mwy a mwy o adnoddau ar lwyfan digidol ac mae hyn i'w groesawu.

94. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r ddibyniaeth ar ddefnyddio adnoddau digidol roi rhai dysgwyr, sydd â mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad at ddeunyddiau digidol, o dan anfantais. Gall hyn fod oherwydd bod band eang yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd, neu nad oes gan rai teuluoedd fand eang gartref. Credwn fod angen gwneud ymchwil ar hyn.

Argymhelliad 12. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gomisiynu ymchwil i sefydlu faint o ddisgyblion y mae diffyg band eang yn effeithio arnynt, ac nad ydynt yn gallu cael mynediad at adnoddau addysgol digidol yn rhwydd.

Effaith diwygio'r cwricwlwm

95. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch effaith bosibl y diwygio sydd ar fin digwydd ar y cwricwlwm o ran argaeledd adnoddau. Mae'n amlwg y bydd angen diwygio llawer o adnoddau neu gynhyrchu deunyddiau newydd i ateb gofynion y cwricwlwm newydd ac mae angen rheoli hyn yn effeithiol i sicrhau bod yr adnoddau hynny ar gael i ddysgwyr, yn y fformat o'u dewis nhw, ar yr adeg y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei addysgu gyntaf.

96. Mae hefyd yn amlwg, o'r profiadau a gafwyd gyda'r rownd ddiweddar o ddiwygio cymwysterau, fod angen mwy o amser rhwng cymeradwyo manyleb cymhwyster a'r addysgu cyntaf. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan nifer o randdeiliaid fod angen mwy o amser cyflwyno wrth baratoi adnoddau ar gyfer cymwysterau newydd. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â CBAC fod angen amser cyflwyno o 18-24 mis i sicrhau bod adnoddau o safon uchel yn cael eu cynhyrchu,

mewn pryd ar gyfer yr addysgu cyntaf, ac mae'n credu y dylai hyn gael ei ymgorffori yn y broses sydd ar fin digwydd i ddiwygio'r cwricwlwm.

Argymhelliad 13. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd a datblygu'r adnoddau cysylltiedig sydd eu hangen.

Argymhelliad 14. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod amser cyflwyno o 18-24 mis ar gael ar gyfer cynhyrchu unrhyw adnoddau newydd sy'n ofynnol o ganlyniad i'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm sydd ar y gweill.

97. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cytuno ag Estyn wrth iddo alw am gyflwyno unrhyw newid mawr i'r polisi arholi mewn ffordd fwy graddol. Yn arbennig, dylid osgoi newid y cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn yr un flwyddyn ar gyfer pynciau unigol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol o ran cynhyrchu unrhyw adnoddau newydd y mae eu hangen.

Argymhelliad 15. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod unrhyw newidiadau mawr i'r polisi arholi yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fwy graddol yn y dyfodol. Yn arbennig, dylid osgoi newid y cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn yr un flwyddyn ar gyfer pynciau unigol.

Darpariaeth o werslyfrau ac adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion sy'n cymryd cymwysterau cyffredinol (TGAU a safon uwch) yng Nghymru.

Cyfweliad fideo gyda disgyblion ac athrawon

Ebrill 2018

Cyflwyniad

Er mwyn helpu i lywio ei sesiwn graffu unigol gyda CBAC a Chymwysterau Cymru, roedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am glywed ganddisgyblion ac athrawon, i ddeall eu barn am y ddarpariaeth o werslyfrau ac adnoddau dysgu. Pryder arbennig i'r pwyllgor yw argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg a'r adnoddau sydd ar gael mewn pynciau penodol.

Mae'r papur hwn yn nodi yn gryno y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu barn, y cwestiynau a ofynnwyd, a'r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd gan y cyfranogwyr.



Methodoleg a chyfranogwyr

Cynhaliwyd sgysiau ag ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys Ynys Môn, sir Ddinbych, Preseli, Aberystwyth, gorllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru.

Myfyrwyr TGAU a Safon Uwch sy'n astudio amryw bynciau, ac athrawon o dair ysgol Saesneg a saith ysgol Gymraeg, yw'r rhai a gymerodd ran.

Rhoes y chyfranogwyr eu barn trwy dystiolaeth ysgrifenedig a/neu dystiolaeth fideo

Cwestiynau

DISGYBLION

1. Ydych chi wastad yn gallu dod o hyd i werslyfr i'ch helpu i astudio os oes angen un arnoch chi? Os na, pa effaith a gafodd hyn?
2. Ydych chi'n gallu cael adnoddau dysgu yn eich dewis iaith? Ydych chi erioed wedi methu â chael adnodd yn eich dewis iaith? Os na, pa effaith a gafodd hyn? Sut oedd hyn yn gwneud i chi deimlo?
3. Wrth baratoi ar gyfer arholiad neu aseiniad, ydych chi'n fodlon/hapus â'r adnoddau dysgu sydd ar gael i chi? Os na, a gafodd hyn unrhyw effaith arnoch chi?
4. Wrth baratoi gwaith cwrs neu adolygu ar gyfer arholiad, ble ydych chi'n chwilio am wybodaeth ychwanegol?

ATHRAWON:

1. Ydych chi wastad yn gallu dod o hyd i werslyfr i'ch helpu i addysgu os oes angen un arnoch chi? Os na, pa effaith a gafodd hyn?
 2. Ydych chi'n gallu cael adnoddau dysgu yn eich dewis iaith? Ydych chi erioed wedi methu â chael adnodd yn eich dewis iaith? Os na, pa effaith a gafodd hyn?
 3. Wrth baratoi myfyrwyr ar gyfer arholiad neu aseiniad, ydych chi'n fodlon/hapus â'r adnoddau addysgu sydd ar gael i chi? Os na, a gafodd hyn unrhyw effaith arnoch chi?
 4. Ble ydych chi'n argymhell y dylai myfyrwyr chwilio am wybodaeth ychwanegol wrth adolygu neu baratoi ar gyfer arholiad?
-

Cyfraniadau ysgrifenedig a llafar

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Athrawes Astudiaethau Grefyddol a Chymdeithaseg

1. Llyfrau Cymraeg yn cyrraedd blwyddyn o leiaf ar ôl y rhai Saesneg (e.e. rhai TGAU fi (AG) newydd gyrraedd - arholiad mewn 3 wythnos) !!
2. Safon ieithyddol lawer rhy uchel i ddisgyblion pan maen nhw'n cyrraedd-safon uwch na'r brifysgol.
3. Does dim posterï ar gael e.e. rhai dreamworks/illuminate
4. Mae angen prynu llyfr Saesneg er mwyn ei gyfieithi gan nad oes dim arall ar gael
5. Does dim cynlluniau marcio Cymraeg mewn rhai pynciau.
6. Does dim adnoddau adolygu Cymraeg.

Ysgol David Hughes

Addysg Grefyddol

7. Rydym wedi ein siomi yn yr adran Addysg Grefyddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'r prinder o adnoddau Cymraeg ar gael ar gyfer addysgu'r cwrs. Mae adnoddau Cymraeg yn ein cyrraedd fisoedd ar ôl y rhai Saesneg ac yn aml yn cyrraedd tuag at ddiwedd y cwrs. Rydym fel athrawon wedi bod o dan straen aruthrol yn ceisio deall termau ar gyfer cwrs cwbl newydd. Roedd yr eirfa gan CBAC yn hwyr ar gyfer y cwrs A2, felly roedd hynny yn achosi her enfawr. Oherwydd y diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg, mae ein cyfieithydd yn methu a chymryd mwy o waith, felly rydym ni'r athrawon wedi gorfod cyfieithu unedau swmpus a chymhleth. Fel y gallwch ddychmygu, mae hyn wedi cael effaith ar ein dyletswyddau eraill ac o ganlyniad wedi achosi straen enfawr. Rydym wedi derbyn cwynion gan rieni sy'n achosi cywilydd i ni fel staff a theimlwn ein bod yn edrych yn anghymwys ac yn amhroffesiynol. Y gŵyn fwyaf yw'r effaith ar les y dysgwyr. Mae'r dysgwyr sy'n astudio'r cwrs drwy'r Gymraeg yn sicr yn cael cam ac yn teimlo eu bod dan anfantais. Mae'r ffaith fod adnoddau ar gael ar gyfer dysgwyr cyfrwng Saesneg a

dim ar gyfer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn dal y plant yn ôl ac yn golygu nad ydynt yn cyrraedd eu llawn potensial. Heb os, nid yw ein dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael cyfiawnhad.

Hanes

8. Darpariaeth llawlyfrau TGAU Hanes yn dda iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyfres newydd wrthi yn cael ei chyhoeddi. Rhan fwyaf o'r cyrsiau gyda llyfrau newydd wedi eu cyflwyno yn y ddwy iaith.

Darpariaeth llawlyfrau Lefel AS/A Hanes yn warthus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid oes llawlyfrau pendant ar gyfer y gwahanol gyrsiau felly mae'n rhaid cymryd darnau o nifer o rai Saesneg er mwyn cael ychydig o wybodaeth penodol, ac nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Gymraeg. Oherwydd hyn nid oes unrhyw ddisgybl yn dewis i wneud Lefel AS na Lefel A Hanes yn y Gymraeg.

Cymdeithaseg

9. Yn gyffredinol mae diffyg enbyd parthed adnoddau Cymraeg ar gyfer y cwrs Cymdeithaseg UG/U. Mae llawer o ddeunyddiau a phwyntiau pŵer ar HWB a gwefan CBAC yn Saesneg. Mae hyn yn peri anhawster mawr wrth gyflwyno'r cwrs yn ddwyieithog am y tro cyntaf eleni ac yn ychwanegu at faich gwaith ychwanegol. Ni ddylai athrawon orfod treulio amser yn cyfieithu adnoddau er mwyn cynllunio a gyfer y cwrs newydd. Caiff disgyblion sy'n astudio drwy'r Saesneg fynediad i doreth enfawr o adnoddau. Mae angysondeb mynediad i adnoddau ar wefan HWB a rhaid mynd i wefan CBAC i gael mynediad iddynt - e-nodiadau e-lyfr. Rwy'n ddiolchgar iawn am y deunydd a grëwyd gan atebol ar sgiliau ymchwil yn Gymraeg. Yn ogystal a hyn mae Adran Prifysgol Gwyddorau Cymdeithas Bangor wedi cynhyrchu pecyn adnoddau amlgyfrwng Cymdeithaseg dulliau ymchwil yn Gymraeg fydd yn fuddiol iawn ar gyfer y myfyrwyr. Mae angen gwell cysondeb yn y deunyddiau a gynhyrchir yn y ddwy iaith er mwyn hyrwyddo dysgu dwyieithog.

Bywydeg

10. Mae'r adnoddau CBAC ar gyfer TGAU bywydeg yn dda yn y ddwy iaith. Rydym fel adran wedi buddsoddi yn helaeth i brynu'r gwrslyfr newydd ar gyfer y cwrs newydd (Hodder). Mi wnaeth yr adran dderbyn 15 copi Cymraeg yn rhad ac am ddim gan CBAC - ac roedd y llyfr ar gael yn y

ddwy iaith tua'r un adeg. Mae CBAC newydd yrru 6 copi o werslyfr adolygu ar gyfer disgyblion yn rhad ac am ddim, sydd yn cynnwys nodiadau a chwestiynau ac atebion.

Mae adnoddau CA5 ar gael yn y ddwy iaith – er mai dim ond yn y Saesneg rydym yn cynnig y cwrs.

Ysgol Glan y Mor – Preseli

Ffrangeg

11. Prin iawn yw'r adnoddau yn Gymraeg / angen creu adnoddau Cymraeg a chyfieithu adnoddau Saesneg yn aml.
12. Llyfrynnau eto yn brin ofnadwy - dim gwर्सlyfrau ar gyfer defnydd CA3 a prin yw'r dewis o ran y llyfrau TGAU.

Addysg Grefyddol

13. Cyflwynwyd cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd ym mis Medi 2017 ac nid oedd unrhyw werslyfr ar gael, yn y Gymraeg na'r Saesneg. Crëwyd cwrs Uned 1 Blwyddyn 10 yn fympwyol ar y wybodaeth a roddwyd yn y fanyleb yn unig. Cyhoeddwyd y gwर्सlyfr Saesneg ar gyfer Uned 1 sef cwrs Blwyddyn 10 ym Mis Hydref ac o'r diwedd ddechrau fis Ebrill cyhoeddwyd y gwर्सlyfr Cymraeg. Mae gwर्सlyfr Saesneg uned 2 Blwyddyn 11 newydd ei gyhoeddi a rhagwelir efallai y bydd y fersiwn Gymraeg allan ddiwedd fis Gorffennaf. Mae llyfr adolygu Saesneg i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Awst, ond eto does dim sôn am y fersiwn Gymraeg.

Teimlaf fod y ddiffyg yma mewn cyhoeddi gwर्सlyfrau yn y Gymraeg yn hollol annerbyniol. Anodd iawn fu creu cwrs newydd i athrawon heb y sicrwydd ein bod yn cyflwyno'r deunydd cywir, ac annheg fu disgwyl i neb wneud hynny heb fod yr adnoddau angenrheidiol ar gael. Mae cyflwyno cwrs newydd ynddo'i hun yn anodd heb y faich ychwanegol o ddiffyg gwर्सlyfrau. Annheg a hollol warthus hefyd yw'r sefyllfa o ystyried y bydd y disgyblion yn sefyll eu harholiad Uned 1 ar Fai 14eg. Bum wythnos yn unig cyn hynny y cyhoeddwyd y gwर्सlyfr Cymraeg. Roedd y disgyblion angen y llyfr yn ystod y flwyddyn i gael gwneud deunydd buddiol a chynhwysfawr o'r wybodaeth sydd ynddo. Yn ogystal nid oes

synnwyr nad oes sôn am lyfr adolygu i hwyluso gwaith yr athro a'r disgyblion.

Bydd angen rŵan creu cwrs Uned 2 ar gyfer Blwyddyn 11, ac unwaith eto HEB y gwर्सlyfr yn y Gymraeg. Mae'n wastraffus o amser i ni greu unwaith eto, ac yna bydd y cyfan yn cael ei gyflwyno i ni yn y gwर्सlyfr pan ddaw allan.

Teimlaf nad yw unrhyw athro na disgybl sydd yn astudio pwnc TGAU newydd trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael unrhyw barch na chwarae teg i astudio'r pwnc yn hyderus.

Dylid sicrhau fod adnoddau ar gyfer unrhyw gwrs sy'n cael ei gyflwyno yng Nghymru fod wedi eu cyhoeddi trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyntaf a hynny cyn i'r cwrs ddechrau.

Daearyddiaeth

14. Gwर्सlyfrau Cymraeg HEB gyrraedd tan Ionawr 2017 er fod y cwrs wedi cychwyn yn Medi 2017. Felly, angen cyfieithu a pharatoi adnoddau yn y Gymraeg.
15. Llyfryn Adolygu Saesneg gwych - CBAC wedi gwrthod ei gyfieithu am 2 flynedd ac yn honni nad oedd yn addas. MAE'R llyfryn adolygu yn gwbl addas !!
16. Pennaeth pwnc wedi cyfieithu 2 bennod o'r llyfryn gwaith Saesneg tra bod yr ysgol wedi talu i gyfieithwyr allanol gyfieithu 4 pennod !!

Electroneg (cwrs Equidas)

17. Adnoddau Saesneg ar gael gan CBAC i ddilyn y cwrs yma.
18. Pennaeth pwnc wedi e-bostio i ofyn am adnoddau yn y Gymraeg - CBAC yn gwrthod eu cyfieithu !
19. Dim esiamplau Cymraeg o'r arholiadau (er bod yr arholiad terfynol yn Gymraeg)
20. Cwrs Equidas Lloegr ar gael i Gymru (ond Equidas ddim yn gorfod ei gyfieithu).

Busnes (cwrs BTEC)

- 21.** Adnoddau y cwrs BTEC Lefel 2 Busnes yn y Saesneg yn unig. Ysgol wedi cyfieithu'r gwर्सlyfrau. Ffurflenni swyddogol ar dasgau y disgyblion ddim ar gael yn Gymraeg. Dim papur arholiad Saesneg ar gael i gyd-fynd â'r amrywiol bapurau arholiad Cymraeg (ar-lein).

Gwyddoniaeth

- 22.** Llyfrynnau Saesneg wedi eu cyhoeddi ac ar gael o fis Medi 2016 er ein bod wedi paratoi llawer o adnoddau dros yr Haf. DIM llyfrau Cymraeg ar gael tan Ionawr 2017. Llyfrynnau adolygu yn cael eu cyhoeddi fisoedd ar ôl llyfrynnau Saesneg (newydd gael rhai ar gyfer blwyddyn 11 er eu bod wedi cwblhau 3 arholiad llynedd !!).
- 23.** Hefyd, darllenadwyedd papurau arholiad drwy'r Gymraeg yn LLAWER anos o gymharu â'r papurau Saesneg. LLAWER o ddisgyblion yn tangyflawni oherwydd hyn ac yn gwneud cais i gwblhau y cyrsiau yn Saesneg (rhaid i ni ddilyn polisi y Sir).

Sylwadau cyffredinol yr athrawon

- 24.** Bu gan Astudiaethau Crefyddol CBAC bob amser ddigonedd o adnoddau ar gyfer addysgu'r pwnc ar gyfer TGAU a TAG. Mae CBAC bob amser wedi sicrhau bod deunydd o ansawdd uchel ar gael i gefnogi addysgu a dysgu Astudiaethau Crefyddol. Mae'n anffodus felly y cafwyd oedi wrth gyhoeddi'r gwर्सlyfrau newydd oherwydd gofynion y cwrs TAG newydd. Mae hyn wedi rhoi straen ychwanegol ar athrawon sy'n ceisio cyflawni'r fanyleb newydd.
- 25.** Fodd bynnag, mae gan wefan CBAC amrywiaeth o adnoddau rhagorol, gan gynnwys ShareSpace i athrawon rannu taflenni gwybodaeth, clipiau fideo a deunyddiau digidol eraill. Mae hefyd ystod eang o ddeunyddiau ar-lein y gall myfyrwyr eu defnyddio i'w helpu i ddysgu, gan gynnwys clipiau YouTube ar wahanol agweddau ar Athroniaeth a Moeseg.
- 26.** Hefyd, hoffwn ychwanegu bod y gwर्सlyfrau a gyhoeddwyd hyd yn hyn yn rhagorol. Byddant yn ein galluogi i gyflawni'r fanyleb newydd mewn modd llawer mwy effeithiol y flwyddyn nesaf.

- 27.**Ar yr adeg hon o'r flwyddyn mae'r angen am ganllawiau a llyfrynnau adolygu yn hollbwysig. Ym mlwyddyn gyntaf y fanyleb newydd, wrth ei chyflawni, gwelsom fod diffyg cwestiynau arholiad sampl a chynlluniau marcio. Mae'n drueni nad oedd gan CBAC ganllawiau adolygu ar waith i gynorthwyo athrawon a disgyblion.
- 28.**Nid oedd prif destun y maes llafur newydd ar gael tan hanner ffordd trwy dymor yr Hydref, ac roedd hynny'n rhwystredig iawn. Ar ôl i'r gwrslyfr gael ei ddarparu, er ei fod yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth, roedd yn rhy swmpus gan ei fod yn ymdrin â phob crefydd.'

Sylwadau cyffredinol y myfyrwyr

- 29.**Mae gwybodaeth dda yn y gwrslyfrau, a diffiniadau gwych o brif eiriau cysyniadau. Maent yn hawdd eu deall. Rwy'n credu y byddai'n fuddiol cael llyfrynnau adolygu ar gyfer arholiadau sydd i ddod.' Myfyriwr blwyddyn 10
- 30.**'Byddai'n ddefnyddiol iawn cael llyfrynnau adolygu i helpu cyn yr arholiadau.' Myfyriwr blwyddyn 10
- 31.**'Mae'r gwrslyfrau yn ddefnyddiol iawn, ond mae adnoddau eraill yn ddiddorol hefyd.' Myfyriwr blwyddyn 10
- 32.**'Mae'r gwrslyfr yn drech na fi. Mae cymaint o wybodaeth ynddo mae'n mynd yn eithaf llethol. Hoffwn gael rhywbeth sy'n canolbwyntio mwy ar y ddwy grefydd yr ydym yn eu hastudio'. Myfyriwr blwyddyn 10